142 *Pregethu i Bob Math o Bobl*

(1 Timotheus 2:4)

1. O wybod mai diragfarn yw ein Duw,
   Dymunwn ninnau hefyd fod yn deg.
   Mae Duw yn tynnu tyrfa ato'i hun—
   Pob math o bobl, o bob lliw a llun.

(*CYTGAN*)
Calon bur, derbyniol yw.
Ni waeth befo'r llun na'r lliw,
I bobl o bob math estynnwn law.
Does dim ots lle maent yn byw,
Gallant ddod yn ffrind i Dduw.
I bawb ym mhobman rhoddwn groeso mawr.

2. Yn ddibwys i ni yw eu pryd a'u gwedd.
   Nid oes dim ots i ni lle maent yn byw.
   Pwysicaf oll yw cyflwr calon dyn,
   Yr hyn a welir gan Jehofa Dduw.
(*Cytgan*)

3. Mae Duw yn estyn croeso mawr i bawb
   Sy'n dod i ddysgu y gwirionedd glân.
   Cawn ninnau estyn croeso cynnes iawn
   Drwy fynd â'r gwir at bobl o bob math.
(*Cytgan*)

(Gweler hefyd Ioan 12:32; Act. 10:34, 35; 1 Tim. 4:10; Titus 2:11.)

© 2015 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania